



Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2017  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 2 Mawrth 2018

## Cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol

**Trosolwg** Diben yr ymgynghoriad hwn yw ceisio barn ar y newidiadau arfaethedig i gefnogi astudiaethau doethurol

**Sut i ymateb** Dylid e-bostio/postio ymatebion i'r ymgynghoriad i'r cyfeiriad isod erbyn **2 Mawrth 2018** fan bellaf.

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau perthnasol** **Gellir cael y ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill yn ôl y gofyn.**

Gellir gweld y ddogfen ymgynghori hon ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://www.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

**Manylion cyswllt** I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Addysg Uwch  
Y Gyfarwyddiaeth Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol  
Oes  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
Caerdydd  
CF10 3NQ

e-bost: [HEDConsultationsMailbox@wales.gsi.gov.uk](mailto:HEDConsultationsMailbox@wales.gsi.gov.uk)

**Diogelu data** Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch i ni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion sy'n berthnasol i'r ymgynghoriad hwn. Mae'n bosib y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosib y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn hefyd. Fel arfer, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hyn yn helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn

hepgor y manylion hynny.

Efallai y bydd enwau neu gyfeiriadau sydd wedi'u hepgor gennym yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, ond nid ydym yn credu y byddai hynny'n digwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau hefyd. Pe bai rhywun yn gofyn am gael gweld gwybodaeth yr ydym wedi'i chadw yn ôl, bydd rhaid i ni benderfynu a ddylem ei rhyddhau neu beidio. Os bydd rhywun wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd honno'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, gallai fod rhesymau pwysig weithiau dros orfod datgelu enw a chyfeiriad rhywun, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn hwnnw ac yn gofyn ei farn cyn gwneud penderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

## Cynnwys

	Tudalen
Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg	1
Beth yw'r prif faterion?	2
Ble ydym ni nawr?	2
Yr achos dros newid	2
Ein cynnig	8
Effaith	12
Gweithredu	14
Ein cwestiynau	15


## Rhagair gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Ar 11 Gorffennaf 2017, cyhoeddais yn y Cyfarfod Llawn fy mod wedi derbyn mwyafrif yr argymhellion a wnaed gan yr Athro Syr Ian Diamond yn ei adolygiad diweddar o gymorth i fyfyrwyr. Fy mwriad yw cyflwyno'r pecyn llawn o ddiwygiadau Diamond, gyda dim mwy na mân ddiwygiadau. Dywedais y byddwn yn cyflwyno benthyciadau doethurol i fyfyrwyr sy'n dechrau astudio yn 2018/19. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn ar y dulliau arfaethedig.

Gradd doethurol yw'r cymhwyster academiaidd uchaf y gall sefydliad ei ddyfarnu. Mae cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd sgiliau lefel uwch i'r economi ac, felly, o bwysigrwydd astudiaeth ôl-raddedig. Mae twf economaidd yn dibynnu ar arloesedd. Mae ymchwilwyr cymwys a medrus iawn yn gwneud cyfraniad allweddol wrth ddatblygu'r wybodaeth sy'n sail i ddulliau, technegau a chynhyrchion a gwasanaethau newydd yn y byd academiaidd a thu hwnt. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r lefel uchel iawn o sgiliau sydd gan y rhai â chymhwyster doethurol.

Rwy'n cynnig y bydd myfyrwyr cymwys, sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru, yn gallu benthycu hyd at £25,000. Gall myfyrwyr ei ddefnyddio i gefnogi eu hastudiaethau fel y gwelant yn dda. Bydd darparu cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol yn sicrhau bod cyllid yn rhwystr llai arwyddocaol i astudio, gan ganiatáu i fyfyrwyr ddilyn eu hastudiaethau i'r lefel uchaf bosib. Am y tro cyntaf yng Nghymru, bydd system o gymorth ariannol ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer astudio ar lefelau israddedig, Meistr a doethuriaeth.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich barn.



**Kirsty Williams, AC**

## Beth yw'r prif faterion?

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â darparu cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n ymgymryd ag astudiaethau doethurol. Bwriad Gweinidogion Cymru yw sicrhau bod cymorth ar gael i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru<sup>1</sup>, ac yn gofyn am farn ar bolisi. Y dyddiad cau ar gyfer ymateb yw 2 Mawrth 2018.

## Ble ydym ni nawr?

2. Mae Gweinidogion Cymru yn sicrhau bod cymorth ariannol ar gael i fyfyrwyr israddedig ar ffurf grantiau a benthyciadau i'w galluogi i dalu ffioedd darparwyr addysg uwch ('AU') a helpu i dalu costau byw. O flwyddyn academaidd 2017/18 ymlaen, mae cymorth ar gael gan Weinidogion Cymru hefyd ar gyfer myfyrwyr sy'n dilyn cwrs Meistr ôl-raddedig. Cyfraniad at gostau yw hwn a chaiff ei dalu'n uniongyrchol i'r myfyriwr. Efallai y bydd myfyrwyr ar gyrsiau hyfforddi athrawon ôl-raddedig yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr hefyd. Mae cymorth ar gael hefyd i fyfyrwyr ôl-raddedig ag anabledau o dan Ran 13 o Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017. Ar hyn o bryd, dim ond cymorth cyfyngedig iawn sydd ar gael ar gyfer astudiaethau doethurol gan Lywodraeth Cymru.
3. Argymhellodd yr Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr a arweiniwyd gan yr Athro Syr Ian Diamond y dylid cyflwyno cynllun bwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr ymchwil. Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yr argymhelliad hwn. Nid yw'n debygol o gael ei weithredu erbyn blwyddyn academaidd 2018/19.
4. Mae cynllun Sêr Cymru Llywodraeth Cymru'n darparu rhywfaint o arian grant cyfyngedig i brifysgolion yng Nghymru i gefnogi astudiaethau doethurol.
5. Gall myfyrwyr doethurol hefyd gael gafael ar gymorth ar gyfer eu hastudiaethau trwy ffynonellau amrywiol eraill hefyd, er enghraifft, cyflogwyr, Prifysgolion a chynghorau ymchwil y DU.

## Yr achos dros newid

6. Mae sicrhau bod cymorth ar gael ar gyfer astudiaethau israddedig wedi bod yn brif flaenoriaeth polisi ar gyfer pob un o weinyddiaethau'r DU. Darperir cymorth i sicrhau y gall y rhai sy'n gymwys yn ôl gallu a chyrhaeddiad gael mynediad i AU, ac nad yw amgylchiadau economaidd unigol yn rhwystr.
7. Fodd bynnag, bu cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd sgiliau lefel uwch i'r economi ac, felly, bwysigrwydd astudiaethau doethurol.

---

<sup>1</sup> Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at fyfyrwyr 'sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru' sef y term a ddefnyddir yn y rheoliadau sy'n rheoli cymorth myfyrwyr (er enghraifft, Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017 (OS 2017/47)). Fodd bynnag, mae rhai ystadegau'n defnyddio'r term 'myfyrwyr sy'n hanu o Gymru', a gan mai dyma'r term a ddefnyddir yn yr ystadegau ffynhonnell perthnasol, defnyddir y term hwnnw yn y ddogfen hon hefyd.

## Astudiaethau doethurol <sup>2</sup>

8. Gradd ddoethurol yw'r cymhwyster academaidd uchaf y gall sefydliad ei ddyfarnu yn dilyn rhaglen astudio gytunedig. Mae cymwysterau doethurol ar lefel 8 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru<sup>3</sup>. Mae cyfnodau cofrestru ar gyfer doethuriaeth yn y DU yn bedair blynedd amser llawn fel arfer neu chwech i wyth mlynedd yn rhan-amser. Asesir ymgeisydd ar sail traethawd ymchwil, portffolio, arteffact(au), ymarfer clinigol neu allbwn arall sy'n gorfod dangos y cwestiwn ymchwil perthnasol, gwerthuso'n feirniadol y graddau yr aed i'r afael â'r cwestiwn hwnnw, a gwneud cyfraniad gwreiddiol at wybodaeth. Yn y DU dyfernir cymhwyster doethurol trwy gyrraedd neu ragori ar y lefel ofynnol o gyflawniad.
9. Dyfernir graddau doethurol i fyfyrwyr sydd wedi dangos y canlynol:
  - creu a dehongli gwybodaeth newydd, trwy ymchwil wreiddiol neu ysgolheictod uwch arall, sydd o ansawdd i fodloni adolygiad cymheiriaid, yn ymestyn ffiniau'r ddisgyblaeth, ac yn haeddu cael ei chyhoeddi;
  - caffael a dealltwriaeth systematig o gorff sylweddol o wybodaeth sydd ar flaen y gad mewn disgyblaeth academaidd neu faes ymarfer proffesiynol;
  - y gallu cyffredinol i gysyniadu, cynllunio a rhoi prosiect ar waith er mwyn cynhyrchu gwybodaeth, cymwysiadau neu ddealltwriaeth newydd sydd ar flaen y gad yn y ddisgyblaeth, ac addasu cynllun y prosiect yng ngoleuni problemau annisgwyl;
  - dealltwriaeth fanwl o dechnegau perthnasol ar gyfer ymchwil ac ymchwiliad academaidd uwch.
10. Mae'r cyfnod cofrestru'n dangos dealltwriaeth gyffredin bod angen cyfnod o'r fath i gwblhau prosiect ymchwil fel arfer; os yw'n llawer byrrach mae'n annhebygol o gyrraedd safon ddoethurol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol; os yw'n llawer hirach mae'n debygol o fod yn rhy fawr o ran cwmipas neu gymhlethdod ar gyfer dyfarnu'r radd doethurol. Mae'n bosib cyflawni cymhwyster doethurol mewn cyfnod cofrestru llawer byrrach trwy broses a elwir yn 'PhD trwy gyhoeddiad blaenorol'<sup>4</sup>.
11. Mae'r prif gyfrifoldeb am safonau ac ansawdd academaidd mewn AU yn y DU yn nwylo darparwyr AU ymreolaethol (prifysgolion) a sefydliadau ymchwil. Mae gan lawer ohonynt yr hawl i ddyfarnu eu graddau eu hunain. Fodd bynnag, maent yn gwneud hynny yng nghyd-destun fframwaith cenedlaethol sy'n sail i AU – mae'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd yn gweithredu Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU sy'n nodi'r disgwyliadau y mae'n ofynnol i bob darparwr AU eu bodloni<sup>5</sup>.

---

<sup>2</sup> Mae'r adran hon yn defnyddio 'The UK doctorate: a guide for current and prospective doctoral candidates' Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer deunydd cefndir cyffredinol (<http://www.qaa.ac.uk/en/Publications/Documents/Doctorate-guide.pdf>).

<sup>3</sup> Gweler

<http://gov.wales/topics/educationandskills/qualificationsinwales/creditqualificationsframework/?lang=cy/>.

<sup>4</sup> Mae yna deitlau eraill ond fe'i cyfeirir ato yma fel PhD trwy gyhoeddi blaenorol. Mae PhD trwy gyhoeddiad blaenorol yn wahanol i PhD traddodiadol (neu gyfwerth) gan ei fod yn seiliedig ar ymchwil a wnaed eisoes (a'i chyhoeddi) cyn cofrestru ar gyfer y radd fel arfer. Cofrestrir am gyfnod o 12 mis fel rheol. Ychydig iawn o ymchwil wreiddiol a wneir yn ystod y cyfnod hwn os o gwbl.

<sup>5</sup> Gweler <http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/the-quality-code>.

12. Mae'r profiad o ymgymryd â doethuriaeth yn wahanol i bob ymgeisydd; fodd bynnag, mae pob ymgeisydd doethurol yn rhannu'r profiad o greu gwybodaeth trwy gyflawni ymchwil ac ysgolheictod annibynnol. Ni ddisgwylir i wybodaeth newydd gael ei chreu nac i wybodaeth gyfredol gael ei chymhwyso mewn ffordd newydd yn yr un modd ar lefel israddedig neu ôl-raddedig a addysgir. Mae ymgeiswyr doethurol yn gweithredu ar lefel o annibyniaeth a hunangyfeirio na fyddai'n cael ei disgwyl gan fyfyrwr israddedig neu fyfyrwr ôl-raddedig a addysgir.
13. Mae ymgeiswyr doethurol yn dysgu am ymchwil – y modd y mae gwybodaeth yn cael ei chreu a'i hystyn – trwy ymgymryd ag ymchwil annibynnol, o dan arweiniad un neu ragor o oruchwylwyr, ac o fewn cymuned ymchwil sefydliadol, proffesiynol neu bwnc ehangach. Disgwylir i ddeiliaid cymhwyster doethurol barhau i ymgymryd ag ymchwil a datblygu pur a/neu gymhwysol ar lefel uwch gan gyfrannu'n sylweddol at ddatblygu technegau, syniadau neu ddulliau newydd. Byddent hefyd yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus ar faterion cymhleth mewn meysydd arbenigol, yn aml yn absenoldeb data cyflawn, a gallu cyfathrebu'u syniadau a'u casgliadau'n glir ac yn effeithiol i gynulleidfaedd arbenigol ac anarbenigol.
14. Mae graddau doethurol yn cyflawni pob math o ddibenion amrywiol. Er ei bod yn bosib yr ystyrid mai diben gwreiddiol ennill gradd ddoethurol oedd fel ffordd o gael mynediad i'r proffesiwn academiaidd yn unig, dim ond un o blith yr opsiynau niferus sydd ar gael i raddedigion doethurol yw hynny erbyn hyn. Er mwyn darparu ar gyfer yr amrywiaeth hon, mae gwahanol gymwysterau doethurol wedi esblygu. Mae'r rhain yn cynnwys cymwysterau Doethuriaeth mewn Athroniaeth (PhD neu DPhil), a doethuriaethau proffesiynol, megis Doethuriaeth mewn Addysg (EdD) a Doethuriaeth mewn Gweinyddu Busnes (DBA).
15. Mae pob gradd ddoethurol yn paratoi'r ymgeisydd i gyfrannu at wybodaeth trwy ymchwil wreiddiol ac annibynnol. Fodd bynnag, gall y cyd-destun y gall ymgeiswyr doethurol ymgymryd â'u hymchwil ynddo amrywio rhwng y gwahanol gymwysterau sydd ar gael, yn ogystal â'r ffordd y mae'r rhaglen wedi'i strwythuro. Daw ymgeiswyr doethurol o gefndiroedd amrywiol, gyda dyheadau a gofynion gwahanol yn y ffordd y maent yn astudio.

### Cymryd rhan mewn astudiaethau doethurol

16. Roedd 3,895 o fyfyrwyr yn astudio ar gyfer gradd ddoethurol mewn sefydliadau addysg uwch ('SAU') yn 2015/16. O'r rhain, roedd 37% yn dod o Gymru cyn dechrau astudio, roedd 30% yn dod o'r tu allan i'r UE.

**Tabl 1**

Cofrestriadau doethurol yn SAU Cymru

O ble maent yn hanu	Nifer	Canran
Cymru	1,455	37.4%
Lloegr	845	21.7%
Yr Alban	40	1.0%




Gogledd Iwerddon	10	0.3%
Guernsey, Jersey ac Ynys Manaw	*	*
Undeb Ewropeaidd eraill	395	10.1%
Y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd	1,150	29.5%
<b>Cyfanswm</b>	<b>3,895</b>	<b>100.0%</b>

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA

17. Mae nifer y myfyrwyr doethurol amser llawn yn SAU Cymru wedi parhau'n weddol gyson dros y pum mlynedd diwethaf. Mae myfyrwyr doethurol rhan-amser wedi gostwng un rhan o bump yn ystod yr un cyfnod. Nid yw hyn yn debyg i duedd gyffredinol y DU. Dros yr un cyfnod, cynyddodd cofrestriadau doethurol amser llawn yn y DU 15% a chofrestriadau doethurol rhan-amser 1%.

### Ffigur 1

Cofrestriadau doethurol yn SAU Cymru yn ôl dull astudio




Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA

18. Ers 2010/11, roedd tua 46% o fyfyrwyr doethurol mewn SAU yng Nghymru'n fenywod. Mae hyn yn gwrthgyferbynnu â'r darlun AU cyffredinol yng Nghymru lle'r oedd 53% o'r myfyrwyr yn fenywod yn ystod yr un cyfnod.

### Ffigur 2

Rhyw myfyrwyr doethurol yn SAU Cymru, 2015/16




Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA

19. Mae cofrestriadau doethurol fesul 10,000 o'r boblogaeth yn is yng Nghymru nag yn Lloegr na'r Alban, er yn uwch nag yng Ngogledd Iwerddon.

### Ffigur 3

Cofrestriadau doethurol fesul 10,000 o'r boblogaeth, 2015/16




Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA

20. O'r 2,310 o fyfyrwyr o Gymru oedd yn astudio graddau doethurol yn 2015/16, arhosodd 1,455 yng Nghymru, ac aeth tua 775 aeth i Loegr. Yn 2015/16, roedd Cymru'n fewnforiwr net o fyfyrwyr doethurol yn y DU.

### Ffigur 4

Myfyrwyr doethurol sy'n hanu o Gymru yn ôl gwlad astudio, 2015/16



Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA

## Rhesymau dros newid

21. Mae nifer o resymau dros gyflwyno'r cymorth arfaethedig ar gyfer astudiaethau doethurol.

- Blwyddyn academaidd 2017/18 yw'r gyntaf lle mae cymorth ar gael ar gyfer astudiaeth gradd Meistr ôl-raddedig (ac eithrio ar gyfer y rhai ag anableddau). Byddai darparu cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol yn sicrhau bod cyllid yn rhwystro llai arwyddocaol i astudio, gan ganiatáu i fyfyrwyr barhau â'u hastudiaethau ar y lefel uchaf un. Am y tro cyntaf, bydd system o gymorth ariannol ar gael gan y Llywodraeth ar gyfer astudio ar lefel israddedig, Meistr a doethuriaeth.
- Argymhellodd yr *Adolygiad annibynnol o drefniadau cyllido addysg uwch a chyllid myfyrwyr* a arweiniwyd gan yr Athro Syr Ian Diamond y dylid cyflwyno cynllun bwrsariaethau ar gyfer myfyrwyr ymchwil, gan nodi y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu 'rhaglen uchelgeisiol i hyfforddi cenhedlaeth newydd o ymchwilwyr yng Nghymru'<sup>6</sup>. Derbyniodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yr argymhelliad hwn. Mae'r benthyciad arfaethedig yn rhan o'r rhaglen hon.
- Fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad diweddar gan Lywodraeth Cymru ar gymorth ar gyfer astudiaeth ôl-raddedig<sup>7</sup>, mae cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd sgiliau lefel uwch i'r economi ac, felly, astudiaeth ôl-raddedig. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod hyn yn ymestyn i astudio a chymwysterau doethurol. Mae twf economaidd yn dibynnu ar arloesedd. Mae ymchwilwyr hynod gymwys a medrus yn gwneud cyfraniad allweddol wrth ymchwilio i wybodaeth sy'n sail i ddulliau, technegau a

<sup>6</sup> See <http://llyw.cymru/topics/educationandskills/highereducation/reviews/review-of-he-funding-and-student-finance-arrangements/?lang=cy>.

<sup>7</sup> *Cymorth ar gyfer astudiaethau ôl-radd a graddau peirianneg, technoleg neu gyfrifiaduron rhan-amser*, WG27990, Llywodraeth Cymru, Mawrth 2016 (<https://consultatios.gov.wales/sites/default/files/consultation-documents/160303-postgrad-consultation-doc-cy.pdf>)

chynhyrchion a gwasanaethau newydd yn y byd academiaidd a thu hwnt. Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi'r lefel uchel iawn o sgiliau sydd gan y rhai â chymhwyster doethurol.

- Mae ystadegau (ffigur 4) yn dangos bod 63% o fyfyrwyr doethurol sy'n hanu o Gymru'n dewis astudio yng Nghymru, sy'n ffigur calonogol. Bydd darparu cymorth ar gyfer astudio a chynyddu nifer y myfyrwyr doethurol yng Nghymru yn arwain at fwy o gapasiti ar gyfer cydweithrediad rhwng diwydiant a'r byd academiaidd, gyda'r manteision a ddaw yn sgil hynny.
- Yn aml mae'r rhai sydd â chymwysterau doethurol yn gweithredu mewn marchnad lafur fyd-eang. Gall cynyddu'r nifer sy'n graddio o brifysgolion Cymru wella ymhellach sefyllfa SAU Cymru a Chymru yn y byd. Gallai arwain at gyflogi mwy o raddedigion doethurol yng Nghymru.
- Myfyrwyr doethurol yw ddarlithwyr ac athrawon yfory. Dim ond gwella sefyllfa SAU Cymru y gall cynyddu nifer y myfyrwyr ei wneud. Yn eu tro, gallai SAU fod mewn sefyllfa well i ehangu a datblygu eu rhaglenni ymchwil.
- Yn draddodiadol mae myfyrwyr doethurol yn chwarae rhan bwysig a gweithredol yn eu sefydliad yn ystod eu hastudiaethau, gan gyfrannu at weithgareddau ymchwil a chefnogi addysgu israddedig. Dylai cynyddu nifer y myfyrwyr doethurol yn sefydliadau Cymru ddarparu effeithiau cadarnhaol canlyniadol mewn adrannau ymchwil ac yn eu hallbynnau. Efallai y bydd synergeddau gyda rhaglen Sêr Cymru.
- Mae'r gystadleuaeth ar gyfer cyllid doethurol presennol yn ffyrnig, gan awgrymu bod yna alw heb ei ddiwallu am astudiaethau doethurol. Bydd cymorth drwy fenthyciadau'n galluogi unigolion i wneud penderfyniadau gyrfaol gwybodus, heb eu cyfyngu gan y cyllid sydd ar gael yn syth.

## Ein cynnig

22. Y bwriad polisi yw bod y meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cymorth ddoethurol arfaethedig yn adlewyrchu'n fras y meini prawf cymhwysedd ar gyfer cymorth israddedig a Meistr ôl-raddedig sydd ar gael gan Weinidogion Cymru, er mwyn sicrhau cysondeb mewn polisi a pharhad i'r myfyriwr.
23. Cynigir y bydd cymorth trwy fenthyciad £25,000 i'r myfyriwr. Gall myfyrwyr ei ddefnyddio i gefnogi eu hastudiaethau ym mha bynnag ffordd y gwelant yn addas. Fel y benthyciad Meistr ôl-raddedig sydd ar gael ar hyn o bryd o dan Reoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Feistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2017, bydd yn gyfraniad at gostau dilyn astudiaethau doethurol (yn hytrach nag i dalu am ffioedd dysgu neu gostau byw yn benodol). Cynigir y bydd y benthyciad ar gael i wladolion cymwys yn y Deyrnas Unedig sy'n preswyl fel arfer yng Nghymru a myfyrwyr eraill sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd a phreswylio'r benthyciad sydd ar waith ar y pryd. Bydd y benthyciad ar gael i fyfyrwyr sy'n dechrau rhaglen ddoethurol ym mlwyddyn academiaidd 2018/19. Ni fydd y benthyciad yn ôl-weithredol - cynigir na fydd myfyrwyr doethurol sy'n dechrau eu rhaglen cyn blwyddyn academiaidd 2018/19 yn gymwys i gael cymorth. Mae hyn yn

dilyn y confensiwn arferol ar gyfer cymorth i fyfyrwyr lle caiff 'llinell glir' ei thynnu rhwng cohortau er mwyn osgoi penderfyniadau polisi anghyson ynghylch ymestyn cymhwysedd am gymorth, a sicrhau gweithredu effeithiol.

24. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd y system gymorth yn adlewyrchu cynigion Adran Addysg Llywodraeth y DU ar gyfer system cymorth doethurol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yn Lloegr. Mae sawl rheswm dros hyn:

- darparu pecyn cymorth tebyg sy'n sicrhau bod myfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru yn cael eu trin o leiaf yr un mor ffafriol â'u cymheiriaid yn Lloegr;
- mae'n galluogi'r Cwmni Benthyciadau Myfyrwyr (SLC) i weithredu dull gweinyddol tebyg ar draws y ddwy wlad, gan sicrhau gweithredu cost effeithiol ac amserol;
- mewn cyfnod o gyfiariannol parhaus, mae'n sicrhau y defnyddir adnoddau gan y Trysorlys yn y ffordd orau bosib.

25. Rhestrir nodweddion allweddol y benthyciad arfaethedig isod.

### Y myfyriwr

26. Ar gael i'r rheini sydd wedi ymsefydlu yn y DU ac sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, gan gynnwys ffoaduriaid ac aelodau eu teuluoedd sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru, a'r rheini sydd â chaniatâd i gael mynediad neu aros ac aelodau o'u teuluoedd sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru. Y bwriad yw y bydd y cymorth hwn ar gael hefyd i'r rhai sy'n gymwys i gael cymorth fel arfer yn rhinwedd aelodaeth y DU yn yr Undeb Ewropeaidd.

27. Pum deg naw oed neu iau ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academiaidd gyntaf o astudio. Mae Adran 13(1) o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn gwahardd gwahaniaethu uniongyrchol ar sail oedran. Fodd bynnag, mae adran 13(2) o'r Ddeddf honno yn darparu nad yw person ("A") yn gwahaniaethu yn erbyn person arall ("B") ar sail oedran os gall A ddangos bod trin B yn llai ffafriol nag eraill yn fodd cymesur o gyflawni nod dilys. Nid diben y benthyciad arfaethedig yw hwyluso'r defnydd o raglenni doethurol gan fyfyrwyr sy'n dilyn eu hastudiaethau er budd personol yn unig, heb unrhyw fwriad penodol i ddychwelyd i'r gweithle. Gall hyn fod yn broblem benodol ymysg cohortau hŷn. Gallent gasglu'n gwbl gywir na fyddai'n rhaid iddynt ad-dalu dim o'r benthyciad, yn enwedig os yw ad-daliad y benthyciad yn amodol ar incwm. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod, er y gall doethuriaethau o'r fath fod yn werthfawr ynddynt eu hunain, gan fod gan ymchwil ddoethurol werth beth bynnag fo oedran y myfyriwr sy'n ymgymryd â'r ymchwil, mae gan Lywodraeth Cymru ddyletswydd i sicrhau gwerth am arian i'r trethdalwr wrth ddsbarthu arian cyhoeddus. Mae'r cyfyngiad oedran arfaethedig yn debygol o fod yn bwysig wrth liniaru'r risg y bydd cyfran anghymesur o fyfyrwyr hŷn yn manteisio ar y benthyciad a fydd yn annhebygol o ad-dalu'r benthyciad yn llawn neu wneud ad-daliadau sylweddol. Byddai sefyllfa lle byddai nifer fawr o fyfyrwyr hŷn yn manteisio ar y benthyciad gyda lefel isel o ad-daliadau yn lleihau gwerth am arian i'r trethdalwr. Byddai gan fyfyrwyr hŷn nifer cyfyngedig o flynyddoedd lle byddai eu sgiliau ar gael i'r economi. Gan mai un o amcanion polisi'r benthyciad yw cynyddu sgiliau lefel uchel ar gyfer yr economi, mae yna ddadl gwerth am arian o blaid targedu'r benthyciadau at y rheini sydd mewn

cyfnod cynharach yn eu bywyd gwaith. Ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai'r cyfyngiad oedran hwn yn lleihau'r risg y byddai'r benthyciadau'n cynnig gwerth isel am arian i'r trethdalwr. Mae'n ystyried bod y cyfyngiad oedran arfaethedig, sy'n adlewyrchu'r meini prawf cymhwysedd oedran ar gyfer y benthyciad Meistr ôl-raddedig, yn taro'r cydbwysedd gorau rhwng mynediad a fforddiadwyedd ac yn ffordd gymesur o liniaru'r risg o werth isel am arian.

28. Ni ddylai fod gan y myfyriwr gymhwyster doethurol na chymhwyster cyfwerth neu lefel uwch eisoes (gan gynnwys cymwysterau a gafwyd y tu allan i'r DU). Mae hyn yn adlewyrchu maen prawf tebyg sy'n berthnasol i fenthyciadau Meistr ôl-raddedig.
29. Bydd myfyrwyr cymwys yn gallu mynd â'u benthyciad i unrhyw brifysgol yn y DU sy'n cynnig rhaglen ddoethurol ddynodedig.
30. Astudio am gymhwyster doethurol Lefel 8.

### **Dyblygu cyllid y Llywodraeth a chymhwysedd ar gyfer cymorth**

31. Ni fydd pob myfyriwr yn gymwys i gael cymorth. Yn arbennig, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau nad yw cyllid y Llywodraeth yn cael ei ddyblygu.
32. Ni fydd y rheini sy'n derbyn cyllid ysgoloriaeth ymchwil gan unrhyw un o saith Cyngor Ymchwil y DU (boed yn llawn neu ffioedd yn unig) yn gymwys i dderbyn benthyciad.
33. Bydd ffurfiau uniongyrchol eraill o gymorth gan y Llywodraeth ar gyfer costau cynhaliaeth a ffioedd, gan gynnwys unrhyw gyfraniadau cyflog neu ffioedd a ddarperir gan y GIG at ddibenion astudiaeth ddoethurol, hefyd yn golygu nad yw myfyriwr yn gymwys ar gyfer y cymorth benthyciad arfaethedig.
34. Derbyniodd ymateb Llywodraeth Cymru i adolygiad Diamond argymhelliad 'i'w weithredu yn y dyfodol' i gyflwyno cynllun i ariannu 150 ysgoloriaeth ymchwil y flwyddyn. Mae'n annhebygol y bydd hyn ar gael ar gyfer blwyddyn academiaidd 2018/19. Nid yw'r meini prawf cymhwysedd ar gyfer y cynllun ysgoloriaeth hwn wedi'u pennu eto. Er mwyn osgoi dyblygu arian, efallai na fydd myfyrwyr sydd â benthyciad doethuriol cyfredol ar waith yn gymwys i gael ysgoloriaeth, os a phan gaiff cynllun ysgoloriaeth ei lansio.

### **Y cwrs**

35. Cyrsiâu doethurol a gynigir gan ddarparwyr yn y DU sydd â Phwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil.
36. Wedi'u darparu'n sylweddol yn y DU.
37. Cyrsiâu amser llawn a rhan-amser rhwng tair ac wyth mlynedd o hyd. Mae Llywodraeth Cymru am i'r benthyciad fod ar gael i ehangu cyfranogiad mewn astudiaethau doethurol, gan gynnwys ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio'n rhan-amser ac a allai fod wedi cael trafferth cael cymorth ariannol o'r blaen. Mae cyrsiau doethurol

amser llawn yn dair neu bedair blynedd o hyd gan amlaf. Byddai'r uchafswm o wyth mlynedd arfaethedig yn cwmpasu cyrsiau lle mae doethuriaeth ran-amser yn cynnwys cyfnod ymchwil o chwe blynedd gyda blwyddyn 'ysgrifennu' ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd cyfnod o wyth mlynedd yn cwmpasu'r cyfan heblaw lleiafrif bychan o gyrsiau doethurol amser llawn a rhan-amser sydd ar gael.

38. Cyrsiau sy'n cychwyn ym mlwyddyn academiaidd 2018/19 neu wedi hynny (h.y. ar neu ar ôl 1 Awst 2018).
39. Ni fydd PhD trwy gyhoeddiad blaenorol yn gymwys. Mae'r cyfnod cofrestru'n fyr ac mae'r unigolyn yn annhebygol o fod yn astudio'n weithredol, ac nid yw hynny'n cyfiawnhau'r pecyn cymorth arfaethedig. Yn yr un modd, ni fydd doethuriaethau uwch, sy'n anrhydeddus yn aml, yn gymwys i gael cymorth chwaith.

### **Benthyciad**

40. Byddai unigolion cymwys yn gallu benthycia hyd at uchafswm o £25,000 dros gyfnod y rhaglen ddoethurol.
41. Bwriedir y benthyciad fel cyfraniad at gost astudio, yn hytrach na thalu'n benodol am ffioedd dysgu neu gostau byw. Nid yw'r ffioedd y mae SAU yn eu codi ar gyfer rhaglenni doethurol yn cael eu rheoleiddio. Mae lefelau ffioedd a chostau byw'n amrywio ledled y DU hefyd. Nod polisi allweddol yw cau'r bwlch cyllid i unigolion sy'n ystyried gradd ddoethurol.
42. Ni fydd cymhwysedd yn seiliedig ar brawf modd.
43. Gwneir taliadau a wneir fesul rhan dros flynyddoedd y rhaglen ddoethurol.
44. Telir y benthyciad i'r myfyriwr ar ôl i'r SAU gadarnhau presenoldeb.

### **Ad-daliadau**

45. Mae Llywodraeth Cymru'n cynnig y bydd y trefniadau ad-dalu ar gyfer y benthyciad doethurol yn adlewyrchu'r trefniadau sydd ar waith yn awr ar gyfer benthyciadau Meistr ôl-raddedig.
46. Caiff llog benthyciad ei gyfrifo ar RPI+3% gan gychwyn pan wneir taliad i'r myfyriwr.
47. Bydd ad-dalu'n ddibynnol ar incwm ac yn unol â throthwy ad-dalu benthyciadau israddedig a Meistr, sy'n £21,000 ar hyn o bryd.
48. Ar gyfer y myfyrwr hynny sydd â dyled yn sgil benthyciad Meistr, y bwriad yw i'r ad-dalu fod yn un ad-daliad o 6% o incwm uwchlaw'r throthwy ad-dalu ar gyfer y ddau benthyciad h.y. bydd balansau'r benthyciad Meistr a doethuriaeth yn cael eu trin fel balans benthyciad unigol. Bydd y gyfradd ad-dalu ar gyfer y rhai sydd â benthyciad Meistr yn unig yn aros ar 6%.

49. Bydd ad-dalu'n digwydd yr un pryd ag ad-dalu dyledion cymorth myfyrwyr eraill sy'n ddyledus. Bydd cyfuno'r benthyciad â benthyciadau ôl-raddedig eraill yn sicrhau bod graddedigion sy'n ad-dalu benthyciad israddedig yn dal i wynebu uchafswm o 15% o gyfraniad o incwm uwchlaw'r trothwy ad-dalu.
50. Byddai unrhyw falans o fenthyciad doethurol yn cael ei ddileu 30 mlynedd ar ôl y pwynt y bydd benthyciwr yn dod yn atebol i ad-dalu benthyciad.
51. Ar gyfer cyrsiau o 4 mlynedd neu lai, bydd myfyrwyr yn dechrau ad-dalu ar 6 Ebrill ar ôl dyddiad cwblhau'r cwrs. Ar gyfer cyrsiau sy'n hirach na 4 mlynedd, bydd myfyrwyr yn dechrau ad-dalu pedair mlynedd ar ôl dyddiad dechrau'r cwrs. Bydd myfyrwyr sy'n gadael eu cwrs yn dechrau ad-dalu ar 6 Ebrill ar ôl eu dyddiad ymadael. Ni fydd gofyn i fyfyrwyr ddechrau ad-dalu benthyciadau nes bod eu hincwm yn fwy na'r trothwy ar-dalu.
52. Cynigir y dylai'r benthyciad gael ei weinyddu gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr a bod CThEM yn adennill y benthyciad ar gyfer y rheini yn system dreth y DU, a chan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn achos y rhai sy'n byw dramor.
53. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru ddynodi cyrsiau doethurol os yw myfyrwyr i fod yn gymwys i gael cymorth. Rhagwelir y bydd y rhaglenni ddoethurol a gynigir gan y sefydliadau hynny â Phwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil 89 yn cael eu dynodi.

## Effaith

54. Prif effaith y cynnig hwn fydd cynyddu nifer y bobl sy'n astudio ac yn ennill cymhwyster doethurol. Bydd hyn yn cynyddu lefel sgiliau'r gweithlu, yn cynorthwyo i ateb y galw am sgiliau uwch, bydd o fudd i'r economi ac yn cryfhau sefyllfa sector AU Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n rhagweld cynnydd yn nifer y myfyrwyr doethurol. Fodd bynnag, efallai na fydd rhai myfyrwyr yn croesawu dyled ychwanegol ac y bydd hynny'n gwrthbwysu rhai o'r manteision posib.
55. Bydd cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol yn cyfrannu at ddau o'r saith nod llesiant – Cymru lewyrchus' a 'Chymru sy'n fwy cyfartal' – yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Manteision

56. Mae Gweinidogion Cymru o'r farn y bydd y polisi hwn:
  - yn lleihau rhwystr allweddol – cyllid – i astudiaethau doethurol;
  - yn cynyddu'r galw am addysg ddoethurol, gan wella sgiliau ar y lefel uchaf a fydd yn ei dro o fudd i'r economi;

<sup>8</sup> Am ragor o wybodaeth am bwerau dyfarnu graddau, gweler <http://www.qaa.ac.uk/assuring-standards-and-quality/daput>.

<sup>9</sup> Y Sefydliadau yng Nghymru sy'n meddu ar Bwerau Dyfarnu Graddau Ymchwil yw Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, y Brifysgol Agored yng Nghymru, Prifysgol Abertawe, a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.



- yn cynyddu nifer y myfyrwyr doethurol yn SAU Cymru, a fyddai'n fanteisiol i fyfyrwyr a sefydliadau;
- yn syml i'w weithredu.

## Costau

57. Nid yw'r polisi hwn heb gostau:

- efallai y bydd cynnydd mewn costau i Lywodraeth Cymru drwy daliadau ychwanegol ar gyfer cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau (RAB)<sup>10</sup>;
- bydd costau gweithredu a chostau gweinyddol cylchol;
- bydd myfyrwyr yn wynebu dyled, sy'n debygol o fod yn ychwanegol i'r hyn a ysgwyddwyd yn ystod astudiaethau israddedig ac, o bosib, yn ystod cwrs Meistr ôl-raddedig.

58. Mae modd cyfiawnhau buddsoddiad cyhoeddus mewn addysg uwch o ganlyniad i'r allanoldebau cadarnhaol cysylltiedig. Mae peth tystiolaeth bod pobl â chymwysterau ar lefel doethurol yn cynhyrchu allanoldebau cadarnhaol. Er enghraifft, mewn cyd-destun gwaith, o'r graddedigion doethurol a ymatebodd i'w hymchwil, fe wnaeth Vitae<sup>11</sup> ganfod bod:

- 91% o'r farn bod eu profiad doethurol yn eu galluogi i fod yn arloesol yn y gweithle;
- 88% o'r farn bod eu profiad doethurol yn eu galluogi i wneud gwahaniaeth yn y gweithle;
- 78% o'r farn bod eu profiad doethurol yn eu galluogi i ddylanwadu ar waith eraill; a
- 52% o'r farn bod eu profiad doethurol yn eu galluogi i newid diwylliant a/neu arferion gweithio'r sefydliad.

59. Fe wnaeth CFE Research ganfod effeithiau tebyg yn eu hastudiaeth yn 2014.<sup>12</sup>

60. Mae manteision personol astudiaethau doethurol, hynny yw i'r unigolyn, hefyd wedi'u cofnodi. Fe wnaeth Ysgol Economeg Llundain (LSE) ganfod yn 2010 bod graddedigion â gradd Meistr neu PhD yn ennill ar gyfartaledd 15% a 23% yn fwy na graddedigion â gradd gyntaf yn unig.<sup>13</sup> Yn eu hastudiaeth ar daith gyrfa gynnar unigolion â graddau doethurol, fe wnaeth Vitae ganfod bod eu henillion canolrifol tair blynedd a hanner ar ôl graddio yn £35,000, o gymharu â £32,000 ar gyfer y rheini â chymwysterau Meistr, a £25,000 i'r rheini â gradd gyntaf yn unig, premiymau o 9% a 40% yn y drefn honno.

<sup>10</sup> Mae taliadau RAB (Cyllidebu a Chyfrifyddu Adnoddau) yn rhagweld y cymhorthdal dealedig y mae'r Llywodraeth yn ei roi i fyfyrwyr trwy delerau ffafriol sy'n gysylltiedig â benthyciadau myfyrwyr (*Student Loans. Third report of session 2014-15*, t.9. Pwyllgor Busnes, Arloesi a Sgiliau Tŷ'r Cyffredin, Gorffennaf 2014). Mae hyn yn cynnwys y benthyciadau hynny na chaiff eu had-dalu byth yn ogystal â'r ffaith bod y gyfradd llog a godir yn is na chost cyfalaf y Llywodraeth.

<sup>11</sup> What do researchers do? Early career progression of doctoral graduates 2013.

<https://www.vitae.ac.uk/vitae-publications/reports/what-do-researchers-do-early-career-progression-2013.pdf/view>

<sup>12</sup> The impact of doctoral careers, policy briefing. <http://www.rcuk.ac.uk/documents/skills/timodc-policy-briefing-pdf/>

<sup>13</sup> The social composition and future earnings of postgraduates. LSE ar gyfer ymddiriedolaeth Sutton.

[https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2010/03/Sutton\\_Trust\\_Postgraduate\\_report\\_01032010-1.pdf](https://www.suttontrust.com/wp-content/uploads/2010/03/Sutton_Trust_Postgraduate_report_01032010-1.pdf)

61. Mae'r gwahaniaeth rhwng y rheini â chymwysterau Meistr a'r rheini â chymwysterau doethurol – 8% yn ôl astudiaeth LSE, 9% yn ôl astudiaeth Vitae – yn dangos bod manteision personol ychwanegol yr astudiaethau'n gadarnhaol, ond nid yw'n agos at y gwahaniaeth rhwng astudiaethau israddedig a Meistr.
62. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru'n ysgwyddo cost y ddarpariaeth o fenthyciadau drwy'r tâl RAB. Mae enillion gwell ar gyfer myfyrwyr doethurol yn debygol o olygu bod y tâl RAB yn is nac ar gyfer darpariaeth israddedig a Meistr. Er hynny, efallai y bydd y ffaith bod benthyciadau ar gael yn golygu y bydd o leiaf rhan o'r cynnydd mewn galw i ddilyn astudiaethau doethurol yn deillio o'r unigolion hynny a fydd yn astudio maes lle mae'r budd yn llai nag arfer. Gallai hyn ddigwydd pe byddai cyllid y cynghorau ymchwil ar gael yn fwy parod i gefnogi astudiaethau mewn meysydd sy'n denu gwell manteision personol. Efallai y byddai myfyrwyr heb fynediad at y grantiau hyn, neu fynediad cyfyngedig atynt, yn troi at fenthyciad, gan effeithio ar broffil enillion y graddedigion hyn a chodi'r tâl RAB.
63. Mae effaith bosib bellach sydd hefyd yn achosi pryder i Lywodraeth Cymru. Mae'r system bresennol o grantiau cystadleuol yn sicrhau mai dim ond cynigion o'r safon uchaf sy'n cael eu derbyn gan sefydliadau dyfarnu gradd. Efallai bod perygl y byddai mynediad hawdd at fenthyciadau yn arwain at fygwth y safonau hyn. Ni fyddai hyn o fudd i'r myfyrwr, y sefydliad, y sector addysg uwch na Llywodraeth Cymru.
64. Mae Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 (OS 2015 Rhif 996 (Cy. 68)) yn sefydlu safonau ymddygiad yn ymwneud â'r Gymraeg y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gydymffurfio â nhw. Ni chredir y bydd y polisi hwn yn cael effaith sylweddol, cadarnhaol nac anffafriol, ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## **Gweithredu**

65. Yn dilyn ymgynghoriad ac yn amodol ar ymatebion a dderbynnir, bwriadwn weithredu trefniadau newydd ar gyfer blwyddyn academaidd 2018/19. Bydd angen is-ddeddfwriaeth ac, unwaith eto, yn amodol ar yr ymatebion a dderbynnir, rydym yn rhagweld gosod rheoliadau drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2018 gyda'r bwriad o alluogi ceisiadau am gymorth i'r Gronfa Benthyciadau i Fyfrwyr ar sail amserlen debyg i'r hyn sydd ar waith ar gyfer cymorth benthyciadau Meistr ôl-raddedig.

## Ein cwestiynau

1. Ydych chi'n cytuno y dylid darparu cymorth ar gyfer astudiaethau doethurol?
2. Ydych chi'n cytuno â'r pecyn cymorth arfaethedig fel yr amlinellir? Oes unrhyw agwedd y byddech chi'n ei newid? Pam?
3. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r benthyciad arfaethedig yn gwneud unrhyw wahaniaeth o ran y nodweddion a warchodir gan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, ac eithrio oedran, wrth bennu cymhwysedd. Y nodweddion gwarchoddedig a nodir yn adran 4 Deddf Cydraddoldeb 2010 yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a thueddfryd rhywiol. Ydych chi'n meddwl bod yna faterion eraill y dylai Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol ohonynt a fyddai'n effeithio ar y nifer sy'n manteisio ar y benthyciad arfaethedig sydd ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig? Os felly, pa gamau y gallai Llywodraeth Cymru eu cymryd i liniaru unrhyw effaith negyddol?
4. Ydych chi'n meddwl y byddai'r polisi hwn, o'i weithredu, yn cael effeithiau (boed yn gadarnhaol neu'n anffafriol) ar:
  - y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
  - sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
5. Sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol, neu mwy o effeithiau cadarnhaol, ar:
  - y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
  - sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
6. Sut y gellid llunio neu ddiwygio'r polisi arfaethedig fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael llai o effeithiau andwyol ar:
  - y cyfle i bobl ddefnyddio'r Gymraeg;
  - sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg?
7. Nodwyd rhai effeithiau negyddol posibl ym mharagraffau 62 a 63 (gostyngiad mewn ansawdd/safon a/neu gynnydd mewn astudiaethau o ddisgyblaethau lle allai fod llai o fudd economaidd). Beth yw eich barn am ba mor debygol yw hyn o ddigwydd, a pha mor sylweddol fydd yr effaith?
8. Yn eich barn chi, a ddylid cyfyngu mynediad at gyllid ar gyfer astudiaethau doethurol i fathau penodol o ddyfarniad a/neu bwnc? Er enghraifft, eu cyfyngu i achosion lle mae modd dangos bod budd uniongyrchol neu anuniongyrchol i'r cyhoedd? Gallai hyn gynnwys:
  - a) Cyfyngu cyllid ar gyfer astudiaethau doethurol i sefyllfaoedd lle roedd y goruchwyliwr wedi cyflwyno mewn grŵp ymchwil a enillodd dros y trothwy yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil.

b) Gallai hefyd gynnwys cyfyngu cyllid i feysydd pwnc lle mae tystiolaeth bod angen mwy o unigolion sy'n meddu ar gymhwyster yn y maes yng Nghymru yn ôl CCAUC neu ei gorff olynol sy'n gweithio gyda'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. Gallai'r ymagwedd hon arwain at annog doethuriaethau mewn gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg, economeg, addysg, meddygaeth, a mathemateg.

9. Oes yna unrhyw faterion eraill ynghylch ein cynnig yr hoffech eu codi?